

---

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 12/2/19

---

**Yn bresennol:** Y Cyngorydd Dewi Owen (Cadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Judith Humphreys, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Edgar Owen, Dewi Wyn Roberts a Catrin Wager.

**Swyddogion:** Carey Cartwright (Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd) Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau), a Siôn Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Linda Ann Jones

### 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD:** Ethol y Cyngorydd Anne Lloyd Jones yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

### 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2018 fel rhai cywir.

### 4. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU

Cyflwynodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad ei adroddiad gan roi trosolwg o'r ddarpariaeth dysgu a datblygu i aelodau a nodi'r llwyddiannau a'r heriau a brofwyd. Nododd y pwyntiau canlynol:

- Fod y ddarpariaeth wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn
- Fod y rhaglen dysgu a datblygu yn parhau i esblygu, gan gynnwys eitemau oedd wedi eu cynnig gan aelodau.
- Fod cyfle i aelodau i gynnal sgysiau datblygu personol er mwyn gwyntyllu eu hanghenion, a bod cynllun mentora ar gael.
- Fod presenoldeb wedi bod yn anghyson yn y sesiynau, a bod y gwasanaeth yn ceisio bod yn hyblyg o ran lleoliad ac amser sesiynau ac yn arbrofi gyda thechnoleg.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Fod lleoli'r rhan fwyaf o sesiynau yng Nghaernarfon wedi profi'n rhwystr i aelodau Meirionnydd a nodwyd dyhead i leoli mwy o sesiynau dysgu a datblygu yn swyddfeydd y Cyngor yn Nwyfor a Meirionnydd.
- Fod angen i'r cynllun mentora fod ar gael i aelodau newydd yn syth ar ôl etholiad.
- Oedd unrhyw aelodau oedd wedi eu hadnabod a'u cymhwyso fel mentoriaid wedi cael y cyfle i fentora?
- Fod y sgysiau datblygu personol wedi cael eu gwerthfawrogi.
- Oedd cynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth e-ddysgu?
- Ei fod yn gyffredin ymysg aelodau newydd i fod yn ansicr pa swyddogion i gysylltu â hwy mewn perthynas â materion ward, ac y dylid cynnal hyfforddiant penodol ar strwythurau'r Cyngor.

- Tra bod pwysigrwydd dysgu a datblygu wedi ei gydnabod, fod y ffaith nad oedd mynychu sesiynau yn orfodol yn golygu nad oeddynt yn cael eu blaenoriaethu gan aelodau. Oedd yno unrhyw awgrym y byddai sesiynau hyfforddi yn dod yn orfodol yn y dyfodol?
- Fod sesiynau a gynhaliwyd ar ddiwedd 2018 a dechrau 2019 i drafod gosod cyllideb 2019-20 wedi eu cynnal mewn modd effeithiol, a gwnaed cais i gynnal sesiynau cyffelyb yn rheolaidd.
- Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith a'u cefnogaeth.

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad sylwadau'r Pwyllgor gan ychwanegu ei fod yn ymwybodol fod perthynas mentora wedi ei sefydlu rhwng rhai aelodau, ac mai cyfeiriad y gwasanaeth i'r dyfodol oedd i gynnal mwy o gyfleon dysgu a datblygu trwy ddulliau digidol.

Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod nifer o aelodau newydd wedi gwneud yr un sylw ynglŷn â'r dryswch wrth geisio cyfeirio materion ward at y swyddogion priodol, ac y byddai angen cyfarch hynny yn well wrth anwytho aelodau newydd. Awgrymodd y byddai'n fuddiol i Aelodau oedd wedi cael profiadau dysgu a datblygu da i son wrth aelodau eraill a lledaenu'r neges. Ychwanegodd fod gwneud hyfforddiant aelodau yn orfodol wedi cael ei grybwyll mewn dogfennau ymgynghorol ym maes llywodraeth leol, ond nad oedd unrhyw sicrwydd pa ofynion fyddai'n cael eu gosod yn y ddeddfwriaeth derfynol.

## 5. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ei hadroddiad gan nodi tra bo gofyn statudol ar y Cyngor i alluogi'r aelodau oedd yn dymuno gwneud hynny i gyhoeddi adroddiad blynyddol, nad oedd unrhyw orfodaeth i aelodau unigol i wneud hynny. Gwahoddwyd y Pwyllgor i gynnig eu sylwadau ar yr adroddiadau a'r broses o'u creu.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Fod tynnu ystadegau presenoldeb a manylion gwaith pwyllgorau o'r adroddiad a'i gynnwys mewn dolen yn gam yn ôl.
- Croesawu fod pwyslais cynnwys yr adroddiad ar waith ward yr aelodau gan mai dyna oedd yn bwysig i'r etholwyr.
- Fod angen gwneud y ddolen at yr adroddiadau yn fwy amlwg.
- Nad oedd angen cynhyrchu adroddiadau blynyddol gan y byddai etholwyr aelod cydwybodol yn ymwybodol fod yr aelod yn eu gwasanaethu'n ddiflino.
- Faint o'r cyhoedd oedd yn edrych ar yr adroddiadau?
- Fyddai posib rhoi dolenni at newyddlenni lleol yr aelodau?
- Oedd cost ychwanegol i gynhyrchu'r adroddiadau?

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod y pwyslais wedi newid i'r gwaith ward gan fod manylion diweddaraf presenoldeb ac ati aelodau yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Ychwanegodd fod defnydd tudalen y wefan oedd yn cynnwys yr adroddiadau blynyddol yn cynyddu'n sylweddol wrth i etholiad agosáu. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw gost tu hwnt i amser staff i gynhyrchu'r adroddiadau, a thra byddai'n ymchwilio mewn i rannu newyddlenni ward, byddai'n rhaid i unrhyw ddeunydd fynd trwy brosesau golygyddol y Cyngor cyn eu cyhoeddi trwy'r wefan gorfforaethol.

Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mai un dull ymysg nifer er mwyn cyfathrebu gydag etholwyr oedd yr adroddiadau blynyddol, a bod etholwyr unigol yn derbyn gwybodaeth mewn sawl ffordd wahanol.

## 5. CYFARFODYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd ei hadroddiad gan nodi fod llwyth gwaith y pwyllgor yn dilyn cylched oedd yn cyrraedd ei uchafbwynt o gwmpas etholiad. Yn y cyfnod rhwng etholiadau nid oedd cymaint o lwyth gwaith ac 'roedd hynny yn cael ei adlewyrchu yn llwyth gwaith pwyllgorau gwasanaethau democritaidd mewn cynghorau eraill. Nododd fod gofyn statudol i'r pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn, ond nid oedd uchafswm a bod angen strwythuro cyfarfodydd y flwyddyn i gyfarch anghenion Gwynedd. 'Roedd trafodaethau ynglŷn â rhesymoli cyfarfodydd hefyd wedi eu cynnal mewn pwyllgorau eraill.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Fod 3 cyfarfod ffurfiol y flwyddyn yn synhwyrol yng nghyfnod canol tymor etholiad.
- Fod angen amseru'r cyfarfodydd fel eu bod yn cael eu cynnal ar yr adegau cywir er mwyn i'r Pwyllgor gyflawni ei bwrpas.
- Fod angen ail afael yn y gwaith o hybu amrywiaeth mewn democratiaeth.
- Rhagwelwyd y byddai mwy o lwyth gwaith yn disgyn ar y Pwyllgor pan fyddai deddfwriaeth llywodraeth leol nesaf y Cynulliad yn cael ei gyhoeddi.
- Fod angen gwerthuso'r nifer o aelodau oedd ar holl bwyllgorau'r Cyngor, yn enwedig o ystyried ei fod yn debygol y byddai'r nifer o aelodau ar Gyngor Gwynedd yn gostwng wedi'r etholiad nesaf.

Mewn ymateb nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd fod croeso i aelodau gynnig eitemau i'r Pwyllgor, yn enwedig os oedd cysylltiad gyda gwasanaethau i aelodau. Byddai cyfle hefyd i'r is-grŵp amrywiaeth i gydweithio gyda'r grŵp prosiect oedd yn gweithio ar gyflawni blaenoriaeth 'Merched mewn Arweinyddiaeth' oedd wedi ei gynnig i Gynllun y Cyngor ar gyfer adolygiad 2019.

Nododd y rheolwr Gwasanaethau Democritaidd y byddai lleihau'r niferoedd o gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor yn arwain at ryddhau amser er mwyn gyrru gwaith is-grwpiau'r Pwyllgor yn eu blaen. Ychwanegodd y byddai'n bosib galw cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor pe byddai'r llwyth gwaith yn teilyngu hynny.

Cynigwyd ac eiliwyd cynnal 3 cyfarfod ffurfiol y flwyddyn o 2019-20 ymlaen

**PENDERFYNWYD: Newid nifer cyfarfodydd rhaglunedig y Pwyllgor Gwasanaethau Democritaidd o 4 cyfarfod y flwyddyn i 3.**

## **7. CALENDR CYFARFODYDD Y CYNGOR 2019-20**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd gan y Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd, gan gyflwyno fersiwn ddrafft o galendr cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2019-20. Nododd y byddai angen ail-drefnu dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor hwn yn sgil eu penderfyniad blaenorol. Ychwanegodd fod trafodaethau wedi bod yn cael eu cynnal gyda phwyllgorau eraill er mwyn rhesymoli'r nifer o gyfarfodydd, a thra 'roedd y Pwyllgor Safonau wedi cytuno i resymoli nid oedd trafodaethau mewn pwyllgorau eraill wedi aeddfedu digon i fedru dod i benderfyniad ar gyfer calendr 2019-20.

Nodwyd gan aelod o'r pwyllgor fod dyddiad Pwyllgor Harbwr Aberdyfi wedi ei osod y rhy fuan yn yr hydref, ac y dylai gael ei symud i gyfnod hwyrach er mwyn rhoi amser i swyddogion gynhyrchu adroddiad mwy cynhwysfawr ar weithgareddau'r tymor gwyliau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.05pm.

**CADEIRYDD**